**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 10.00am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Gwener 15 Ionawr 2016**

**Yn Bresennol:** Dai Davies (Cadeirydd)
John Brereton, Will Haresign, Bethan Jones, Gwynn Angell Jones, Graham Probert, Richard Rogers, Richard Tudor, Wyn Williams a John Yeomans

**Trwy Wahoddiad:** Gary Haggaty a Keith Smyton (Llywodraeth Cymru)
Kevin Roberts, Verley Consulting Cyf

**Tim Gweithredol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
**Yno hefyd:** Prys Morgan (Pennaeth Gweithrediadau)

Julie Finch (Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol)
Laura Pickup (Rheolwraig Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)

Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)

**<u>I groesawu Mr Keith Smyton, Pennaeth Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru</u>**

Croesawyd Keith Smyton i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Rhoddwyd cyflwyniad i’r Bwrdd am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a’r heriau sy’n wynebu’r diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru.

Lansiodd Llywodraeth Cymru ei chynllun gweithredu ar gyfer y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru, sef “Tuag at Dwf Cynaliadwy – Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014 – 2020”, ar 12 Mehefin 2014.

Roedd y Cynllun Gweithredu yn cydnabod pwysigrwydd y sector ac yn rhestru 48 o gamau a fyddai’n rhoi mwy o broffidioldeb, twf a swyddi. Roedd y camau hyn yn cynnwys pum blaenoriaeth i gael twf cynaliadwy yn y diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru:-

Datblygu’r Farchnad
Diwylliant Bwyd
Cynaliadwyedd a llesiant
Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi; ac
Integreiddio

Roedd Bwrdd diwydiant Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru wedi'i sefydlu erbyn hyn ac roedd y Cadeirydd a'r Is-gadeiryddion ar fin cael eu penodi.

Pwysleisiodd y Bwrdd fod angen cael cysylltiadau cryf rhwng HCC a'r Bwrdd Bwyd a Diod er mwyn sicrhau gweithio effeithiol ac atal dyblygu. Roedd hyn yn rhywbeth yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei ystyried ar hyn o bryd.

Rhannwyd â'r Bwrdd raglen ddigwyddiadau arfaethedig 2016 / 2017 gan yr Is-adran Fwyd ar gyfer y diwydiant yn y DG ac yn Rhyngwladol.

Trafodwyd Rhaglen Cynyddu Allforion Llywodraeth Cymru ((£1.2m i HCC dros gyfnod o dair blynedd). Nodwyd bod y cytundeb cyllido yn seiliedig ar gyfnod cyfyngedig a'i fod yn debygol o ddod i ben ar 31 Mawrth 2016. Gyda golwg ar newidiadau cyllidebol o fewn Llywodraeth Cymru, roedd yn annhebygol y ceid rhagor o arian yn y dyfodol agos.

Gellid defnyddio Dangosyddion Perfformiad allweddol o'r buddsoddiad o £1.2m gan Lywodraeth Cymru ar waith allforio yn sail i gais gan HCC yn y dyfodol ar gyfer cyllid.

Diolchodd y Cadeirydd i Keith Smyton am ddod i gyfarfod y Bwrdd a phwysleisiodd ei bod yn bwysig i HCC ac Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru ddal i gydweithio er budd y sector cig coch a'r sector bwyd yn gyffredinol yng Nghymru.

**<u>Cyfarfod Bwrdd HCC</u>**

1. **<u>Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd</u>**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig Kevin Roberts a gafodd ei benodi gan Lywodraeth Cymru i adolygu HCC (gweler Eitem 7).

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu ers y cyfarfod blaenorol:-

*<u>Tachwedd 2015</u>*

Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn y cinio cyn Cynhadledd Flynyddol NFU Cymru yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod, ac yn y gynhadledd ei hun.

Bu'r Cadeirydd yn cynrychioli HCC yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol cangen Sir Gaernarfon o Undeb Amaethwyr Cymru ar 6 Tachwedd 2015.. Ymhlith y pynciau a drafodwyd, roedd effaith y prisiau gwael am ŵyn yn ddiweddar ar y diwydiant cig coch a'r camau a oedd yn cael eu cymryd gan HCC i gynorthwyo'r diwydiant yn ystod y cyfnod anodd hwn trwy ymgyrchoedd ychwanegol i hyrwyddo Cig Oen Cymru PGI. Hefyd, esboniodd y Cadeirydd y sefyllfa ynghylch annhegwch y system Ardoll Cig Coch ar hyn o bryd, a dywedodd fod yna drafodaethau â chyrff Ardoll eraill ynglŷn ag argymhellion i gyflwyno dull tecach.

Bu’r Cadeirydd yn croesawu gwesteion i'r cinio cyn cynhadledd HCC a bu’n cadeirio’r Gynhadledd flynyddol a gynhaliwyd eleni yng Ngwesty’r Metropole yn Llandrindod.

Hefyd, bu’r Cadeirydd mewn derbyniad gan Ystad y Goron yn Y Senedd, Caerdydd, ac yn Sioe flynyddol Carcasau Cig Eidion St Merryn, Merthyr Tudful.

Bu’r Cadeirydd yn Ffair Aeaf Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanelwedd. Diolchodd i’r Bwrdd am fod yno a chanmolodd staff HCC am gyfrannu tag at wneud y digwyddiad yn llwyddiant i HCC.

Yn ystod y Ffair Aeaf, bu’r Cadeirydd yn cadeirio cyfarfod gan Grŵp Diwydiant HCC i drafod Dosbarthiad Carcasau, pan roddwyd cyflwyniad ar adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan HCC, sef “Astudiaeth Ddichonoldeb i Ganfod Systemau Masnachol sydd yn addas i Fesur Cynnyrch Cig o Garcasau Ŵyn yn Amgylchedd y DG”. Hefyd, cafodd y Grŵp gyflwyniad ar “Talu am Garcasau Cig Coch – a oes gwell systemau na’r grid EUROP?” Bu nifer dda yn mynychu’r cyfarfod, gyda chynrychiolwyr o blith cynhyrchwyr, proseswyr a man-werthwyr.

*Rhagfyr 2015*

Bu’r Cadeirydd yn y cinio i ddathlu trigainmlwyddiant Undeb Amaethwyr Cymru yng Nghaerfyrddin.

Bu’r Cadeirydd yn cadeirio cyfarfod o Grŵp Ymgynghorol Y&D HCC ar 9 Rhagfyr 2015 (Gweler Eitem 13a).

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

3. **Datganiad o Fuddiannau**

Nodwyd Datganiadau o Fuddiannau fel a ganlyn:-

Rheoli Credyd - John Brereton a Wyn Williams.

4. **I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Gwener 6 Tachwedd 2015 (HCC 661)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 6 Tachwedd 2015 wedi’u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna’u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Llenwi swyddi Cyfarwyddwyr Anweithredol HCC*

Nodwyd bod y Bwrdd wedi derbyn llythyrau ailbenodi unigolion am dymor pellach hyd at 30 Medi 2016 gan Lywodraeth Cymru.

*Tynnu Llinyn Cefn Defaid / Hollti Carcasau Cig Oen*

Nid oedd diweddariad i'w roi.

*Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru a'r costau adennill ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2016 / 2017*

Nodwyd bod y Dirprwy Weinidog wedi cytuno ag argymhelliad y Bwrdd y dylai cyfraddau'r Ardoll aros fel y maent ar gyfer 2016 / 2017.

| **Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru ar gyfer 2016 / 2017** | | | |
|---|---|---|---|
| *(y pen)* | **Cyfanswm, y Casgliad Ardoll** | **Cyfanswm wedi'i Dalu gan y Cynhyrchwr** | **Cyfanswm wedi'i dalu gan y Lladd-dy/Allforiwr** |
| **Defaid** | £ 0.83 | £ 0.63 | £ 0.20 |
| **Gwartheg** | £ 5.67 | £ 4.34 | £ 1.33 |
| **Lloi (hyd at 68kg)** | £ 0.17 | £ 0.085 | £ 0.085 |
| **Moch** | £ 1.30 | £ 1.05 | £ 0.25 |

| **Costau Adennill Ardoll ar gyfer 2016 / 2017** | |
|---|---|
| **Rhywogaeth** | **Ardoll wedi'i Hadennill (y pen)** |
| Defaid | £0.010 |
| Gwartheg | £0.030 |
| Moch | £0.013 |

*Grwp Myfyrio'r UE ar Gig Defaid*

Rhoddodd y Prif Weithredwr adroddiad cryno am gyfarfod cyntaf y grŵp uchod a gynhaliwyd yng Nghomisiwn yr UE ar 12 Tachwedd 2015 dan gadeiryddiaeth John Bryan (Iwerddon). Cynrychiolwyd 13 o Aelod-wladwriaethau yn y cyfarfod.

Roedd Comisiwn yr UE wedi sefydlu'r Grŵp ar gais y Comisiynydd Hogan oherwydd yr heriau sylweddol a wynebwyd yn ddiweddar gan y sector defaid.

Yn ei anerchiad agoriadol, dywedodd y Cadeirydd fod ffurfio'r Grŵp hwn yn gyfle pwysig i wella proffil y diwydiant defaid yng ngolwg y Comisiwn, a phwysleisiodd

fod y sector defaid yn sector pwysig i nifer o Aelod-Wladwriaethau. Felly, roedd cael diwydiant defaid proffidiol yn yr UE yn bwysig iawn, nid yn unig o safbwynt economaidd ond hefyd o safbwynt amgylcheddol, er mwyn gwneud yn siŵr na roddid y gorau i ddefnyddio'r tir ymylol lle'r oedd defaid yn pori. Roedd y sector wedi wynebu heriau mawr – ac yn dal i'w hwynebu – ond roedd cyfleoedd ar gael hefyd. Gwahoddwyd y Grŵp i ystyried, ymhlith materion eraill, hunan-gynaliadwyedd yr UE yn awr ac yn y dyfodol, ynghyd âr gostyngiad yn y defnydd o gig defaid ar draws yr Aelod-wladwriaethau.

Roedd yr un themâu'n codi dro ar ôl tro yn y trafodaethau, gan gynnwys:

- llai o ddefnydd
- angen mwy o hyrwyddo ac addysgu i wneud defnyddwyr yn fwy ymwybodol o gig oen yr UE
- Cynlluniau hyrwyddo'r UE yn rhy gymhleth i'w gweinyddu
- yr awydd am wybodaeth am y farchnad ac arsyllfa ohoni ar draws yr UE (yn debyg i sectorau eraill)
- gwella effeithlonrwydd technegol
- mwy o dryloywder yn y rhagofynion trin carcasau
- dylai buddion cymdeithasol / economaidd / amgylcheddol gael eu cydnabod o dan Golofn 2.
- llwyth biwrocrataidd – nodwyd EID
- newydd-ddyfodiaid ifainc a mynediad i dir / cyfalaf

Bwriedid cynnal y cyfarfod nesaf ym mis Chwefror 2016 pan fyddai masnach a chyflenwad rhyngwladol yn cael eu trafod. Cafodd y Prif Weithredwr ei wahodd i roi cyflwyniad ar Raglenni / Mentrau Hyrwyddo Cig Oen yr UE ar gyfer cig ŵyn trwm yn y cyfarfod nesaf.

*Mewnforion Cig Defaid o Seland Newydd*

Trafododd y Bwrdd y Cytundeb Masnach Rydd yr oedd Seland Newydd am ei drafod â Chomisiwn yr UE (cig eidion, cig defaid a chig gafr).

Mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith fawr y gellid ei gweld ar ddiwydiant cig defaid y DG pe bai'r Cytundeb Masnach Rydd yn cael ei gymeradwyo a'r cyfyngiadau'n cael eu codi. Ar hyn o bryd ni allai Seland Newydd fewnforio ond tua 228,000 tunnell fetrig (pwysau carcas cyfwerth) o gig defaid a chig geifr i'r UE cyn gorfod talu ardollau.

Nodwyd bod angen i'r UE gymryd sawl cam cyn y gallai'r trafodaethau ar Gytundeb Masnach Rydd ddechrau. Roedd y camau hyn yn cynnwys diffinio terfynau a natur y trafodaethau a chwblhau asesiad effaith a chyfarwyddebau trafod. Rhagwelwyd y byddai hyn yn cymryd 12-18 mis, ac y byddai'r trafod yn dechrau yn ystod 2017.

Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Gomisiynydd yr UE, Phil Hogan, i dynnu sylw at bryderon y Bwrdd ynghylch y mater hwn.

6. **<u>Adroddiadau HCC</u>**

a. *Adroddiad Gweithgareddau (HCC 662)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*Cynhadledd Flynyddol HCC – Ddydd Iau 12 Tachwedd 2015*

Roedd y Bwrdd o'r farn y bu'r Gynhadledd Flynyddol yn llwyddiannus.

Roedd nifer dda, sef tua 150 o bobl, wedi mynychu'r Gynhadledd. Roedd yr adborth gan y bobl hyn yn bositif iawn, yn enwedig ynghylch ansawdd y siaradwyr a'r gweithdy cigyddiaeth.

*Ymgyrch Cig Oen Cymru PGI 2015*

Dywedodd y Rheolwraig Datblygu'r Farchnad wrth y Bwrdd fod ymgyrch Cig Oen Cymru HCC 2015 wedi ennill gwobr "Ymgyrch Bwyd a Diod y Flwyddyn", "Gwobr y Cadeirydd" a gwobr "Strategaeth Argyfwng Cysylltiadau Cyhoeddus a Thîm Creadigol y Flwyddyn" yn noson wobrwyo Drum Network yn Llundain yn ddiweddar.

Roedd y Bwrdd am longyfarch staff HCC a'r bobl hynny a fu'n ymwneud â'r ymgyrch am ennill.

b. *Bwletin y Farchnad (HCC 663)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

c. *Ariannol – Y Fantolen Incwm a Gwariant Ddrafft tan 31 Rhagfyr 2015 (HCC 664 - cyflwynwyd)*

Cyflwynwyd yr uchod a chafwyd crynhoad gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol:

Cytunwyd cynnwys yr ail-godiadau tâl i EIDCymru yn yr Incwm a Gwariant o hyn ymlaen.

d. *Digwyddiadau i Ddod (HCC 665)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*Cam-YMLAEN 2016 – 11 Chwefror 2016*

Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau fod trefniadau'n cael eu cwblhau ar gyfer y digwyddiad "Arloesi Ymarferol ar gyfer Cynhyrchu Proffidiol" i'w gynnal yn y Ganolfan Adnoddau, Gelli Aur, Sir Gaerfyrddin.

Y cyflwyniadau a'r siaradwyr yw:-

Dermatitis byseddol defeidiog heintus (CODD) mewn Defaid – Joe Angell, Prifysgol Lerpwl
Cynhyrchu da byw a newid yn yr hinsawdd: Ffrind neu Elyn? Dr Prysor Williams, Prifysgol Bangor
Rheoli llyngyr yr iau yn well mewn gwartheg a defaid – Yr Athro Diana Wiliams, Prifysgol Lerpwl
Defnyddio genomeg i ddewis defaid a gwartheg cig eidion: chwalu'r mythau i ffermwyr – Dewi Jones, Prif Weithredwr Innovis Cyf.

Roedd hi'n fwriad cynnal digwyddiad tebyg yng Ngogledd Cymru ym mis Mai 2016.

e. *I dderbyn cyflwyniad am werthusiad o ymgyrch hysbysebu Cig Oen Cymru PGI, 2015*

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu'r Farchnad ganlyniadau'r gwerthusiad o ymgyrch Cig Oen Cymru PGI, 2015.

Yn fyr, roedd canlyniadau'r gwerthusiad yn dangos y bu'r ymgyrchoedd yn yr haf a'r hydref yn llwyddiannus iawn. Llwyddwyd i gyrraedd deirgwaith yn fwy o ddefnyddwyr targed, cynyddwyd ymwybyddiaeth o'r brand a pharatowyd y ffordd mewn amodau anodd ar gyfer cynnydd sylweddol mewn gwerthiant yn y siopau cadwyn a llenwi mwy o le ar y silffoedd.

Roedd yn dda nodi fod ymgyrchoedd yr haf a'r hydref:-

- wedi cyfrannu at gynnydd yng ngwerthiant Cig Oen Cymru PGI mewn archfarchnadoedd;
- wedi cymell archfarchnadoedd i roi mwy o Gig Oen Cymru ar eu silffoedd;
- wedi gwneud defnyddwyr yn fwy ymwybodol o Gig Oen Cymru PGI;
- wedi gwneud pobl yn fwy ymwybodol o ansawdd, amlbwrpasedd, hwylustod a chost effeithiolrwydd Cig Oen Cymru;
- wedi gwneud i ddefnyddwyr feddwl taw Cig Oen Cymru PGI yw 'y brand i fi';
- wedi cyflwyno Cig Oen Cymru fel rhan o ddiet cytbwys iach.

Hefyd, yn y prif archfarchnadoedd, roedd y gwariant o'r naill flwyddyn i'r llall ar yr holl gig oen yn gyffredinol yn agos i ddau y cant yn is, ond cafwyd

cynnydd o gymaint â 5.6 y cant yng ngwerthiant Cig Oen Cymru PGI, ac roedd y cynnydd mwyaf yn y cig drutaf, fel stêcs a choesau.

Cytunwyd y dylid cyhoeddi Datganiad Newyddion am lwyddiant Cig Oen Cymru PGI.

7. **<u>I dderbyn adroddiad llafar am Adolygiad Llywodraeth Cymru o HCC – Mr Kevin Roberts</u>**

Cyflwynodd Kevin Roberts ei hun yn ffurfiol i'r Bwrdd. Cafodd ei benodi gan Lywodraeth Cymru i wneud adolygiad o HCC.

Byddai'r adolygiad yn gwerthuso a oedd angen Ardoll Statudol – ac os oedd, beth fyddai swyddogaeth priodol HCC. Hefyd, byddai'r adolygiad yn ystyried swyddogaeth a llwyddiant HCC o ran fod yn werth am arian i dalwyr Ardoll, y diwydiant yn gyffredinol a Llywodraeth Cymru.

Roedd y gwaith ar yr adolygiad wedi dechrau; bu Kevin Roberts yn mynychu cyfarfodydd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a gyda'r Prif Weithredwr, y Pennaeth Gweithrediadau a'r tîm Rheoli. Nodwyd hefyd bod cyfarfodydd yn cael eu trefnu gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys cynhyrchwyr, yr undebau amaethyddol, proseswyr a nifer fawr o sefydliadau eraill o fewn y diwydiant. Yn ogystal, câi ffurflen adborth ei chynnwys mewn rhifyn o *Gwlad*.

O ran amserlen, y bwriad oedd paratoi adroddiad interim erbyn diwedd mis Mawrth 2016 a chyhoeddi adroddiad llawn – yn cynnwys argymhellion – erbyn diwedd mis Mehefin 2016.

Ar ran y Bwrdd, croesawyd yr adolygiad gan y Cadeirydd fel cam positif a diolchodd i Kevin Roberts am fynychu'r cyfarfod.

8. **<u>Cynllun Busnes HCC 2016 / 2017</u>**

a. *<u>I dderbyn crynodeb o sefyllfaoedd tebygol a ystyriwyd werth baratoi Cynllun Busnes 2016 / 2017 (HCC 666)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.

Yn dilyn trafodaeth o gwmpas y ford, roedd y Bwrdd yn teimlo fod angen rhagor o wybodaeth er mwyn cytuno ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2016 / 2017. Felly, cytunwyd rhoi mwy o fanylion ariannol i'r Bwrdd ynghylch heriau'r Cynllun Busnes a fyddai'n ystyried newidynnau megis:-

a. Mamwladoli Ardoll
b. Y Rhaglen Datblygu Gwledig
c. Ariannu Hyrwyddol yr UE

b. *I ystyried Cynllun Busnes drafft HCC ar gyfer 2016 / 2017 (HCC 667)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.

Roedd angen i'r Cynllun Busnes gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd yng nghyfarfod y Bwrdd ar 4 Mawrth 2016. Felly, cytunwyd y dylid cyfeirio adborth neu sylwadau pellach at y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol erbyn diwedd Ionawr 2016 fel bod modd eu cynnwys yn y drafft terfynol.

Trafodwyd a nodwyd sylwadau'r Bwrdd.

Byddai drafft diwygiedig o'r Cynllun Busnes ar gyfer 2016 / 2017 yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd cyn y cyfarfod nesaf, ynghyd â chrynodeb o'r newidiadau a nodwyd.

9. **I Dderbyn Cynllun Gwaith ar gyfer y Bwrdd 2016 / 2017 (HCC 668 )**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

10. **I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain**

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp Ardoll Cig Coch ar 23 Tachwedd 2015 pan gytunodd y Byrddau Ardoll (AHDB, HCC a QMS) ar y ddogfen Briffio Gweinidogion ddrafft sydd yn cynnig dewis gwahanol ar gyfer dosbarthu incwm yr Ardoll Cig Coch.

. Ar ôl hynny, rhoddwyd y ddogfen i'r Gweinidogion er mwyn iddynt ei hystyried.

Nodwyd bod y trafod yn parhau ynghylch argymhellion ar gyfer cydweithio mewn meysydd o ddiddordeb i bawb a'r posibilrwydd o gyllido gweithgareddau ar y cyd. Rhagwelwyd y byddai newidiadau'n digwydd o 1 Ebrill 2017.

Cafodd y Prif Weithredwr a'r Swyddogion Gweithredol eu canmol gan y Bwrdd am y cynnydd a wnaed hyd yma yn hyn o beth.

11. **I ystyried cais gan y Bwrdd Masnach Organig i gael Ardoll Cig Coch Cymru er mwyn cael hyd i gyllid hyrwyddol yr UE (HCC 669)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwraig Datblygu'r Farchnad.

Roedd y Bwrdd Masnach Organig wedi gofyn am arian o Ardoll Cig Coch Cymru ar gyfer eu cais am arian yr UE i hyrwyddo bwyd a diod organig.

Byddai hyn yn gam y tu allan i gylch gwaith statudol HCC, sef hyrwyddo a datblygu brandiau a chynhyrchion cig coch Cymru.

Byddai'r rhaglen, wedi'i hariannu ar y cyd gan y Bwrdd Masnach Organig a'r UE, yn cael ei chyflwyno ar y cyd â chorff masnach organig yn Nenmarc a byddai'r marchnadoedd targed yn y DG a Denmarc.

Er y byddai cyfle i farchnata cig coch organig mewn gwahanol rannau o'r DG a Denmarc, byddai'r arian gan HCC i gyfrannu at y rhaglen hon yn gyfyngedig.

Ar ben hyn, roedd HCC wedi bod wrthi'n barod yn hybu'r galw am gig coch Cymru organig yn y DG a Denmarc o dan ei bolisi Is-frandiau.

Felly, teimlid y byddai cyfrannu arian at raglen y Bwrdd Masnach Organig yn dyblygu gwariant a byddai'n rhaid cael penderfyniad ynghylch a ddylid cefnogi rhaglenni presennol HCC neu raglen y Bwrdd Masnach Organig yn Nenmarc a'r DG.

Yn ogystal, byddai darparu arian Ardoll i drydydd parti yn golygu heriau Llywodraethu / atebolrwydd. Byddai angen i'r Bwrdd wneud yn siŵr fod HCC. trwy ei Swyddog Cyfrifyddu, mewn sefyllfa i ddiogelu'r defnydd cywir o arian Ardoll Cig Coch.  Yn y pen draw, roedd HCC yn atebol i Weinidogion Cymru am wario Ardoll Cig Coch Cymru

Roedd gan HCC werth brand cryf a oedd o fudd i'r diwydiant cig coch cyfan yng Nghymru. Nid oedd gan raglen y Bwrdd Masnach Organig draddodiad o wasanaethu brandiau na chynhyrchion cig coch Cymru am ei bod yn canolbwyntio ar *bob* bwyd a diod organig a oedd yn tanysgrifio i'r rhaglen, heb ganolbwyntio ar gig coch na tharddiad.

Ar ben hyn, roedd y negesau creadigol a ddefnyddiwyd gan y Bwrdd Masnach Organig hyd yma wedi dweud fod bwydydd organig yn well na bwydydd 'confensiynol'.

Felly, gellid dadlau y byddai HCC, wrth ddargyfeirio arian i raglen y Bwrdd Masnach Organig, yn cyfrannu at raglen a fyddai nid yn unig yn anghyson â negesau brand cig coch Cymru yn gyffredinol, ond a fyddai hefyd yn debygol o danseilio ansawdd premiwm cig coch Cymru confensiynol.

O'r herwydd, ac ystyried yr uchod, roedd y Swyddogion Gweithredol yn argymell i'r Bwrdd y byddai'r sectorau Cig Coch Cymru organig a chonfensiynol yn cael eu gwasanaethu orau trwy Bolisi Is-frandiau HCC.

Yn dilyn trafodaeth ac ystyriaeth o amgylch y ford, cytunodd y Bwrdd yn unfrydol ag argymhelliad y Swyddogion Gweithredol a byddai HCC yn ymateb yn unol â hynny i'r Bwrdd Masnach Organig.

12. **Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg**

a. *I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod yr Is-bwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ddydd Gwener 6 Tachwedd 2015*

Nodwyd bod Bethan Jones wedi cymryd lle Graham Probert fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg adroddiad llafar am y materion a drafodwyd yn y cyfarfod.

b. *I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ddydd Llun 22 Mehefin 2015 (HCC 670)*

Cymerwyd bod cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ddydd Llun 22 Mehefin 2015 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

13. **Y Pwyllgor Cynghori Y&D**

a. *I gael adroddiad llafar am yr Is-bwyllgor Cynghori Ymchwil a Datblygu a gynhaliwyd ddydd Mercher 9 Rhagfyr 2015*

Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad llafar am y materion a drafodwyd yn y cyfarfod: -

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor gan yr Athro Dave Chadwick o Brifysgol Bangor ynghylch prosiect parhaus, 'Rhestr Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr'. Ar hyn o bryd roedd yr Athro Chadwick yn arwain prosiect consortiwm wedi'i ariannu gan Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i wella Rhestr Ocsid Nitraidd Amaethyddol y DG, sef un o dri phrosiect Nwyon Tŷ Gwydr y DG. Nod yr ymchwil oedd cynhyrchu Ffactor Allyriadau newydd wedi'i fesur a'i fodelu ar gyfer gwlad benodol ar gyfer allyriadau methan ($CH_4$) ac ocsid nitraidd ($N_2O$) o amaethyddiaeth.

Roedd llawer o gyfarfodydd rheoli'r prosiect wedi cael eu cynnal yn ystod mis Tachwedd 2015, a nodwyd bod yr holl brosiectau o fewn y targed. Roedd cwblhad yr 'EBV Nodweddion Carcas' yn golygu y gellid disgwyl yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2016.

Ystyriwyd ariannu prosiect arfaethedig gan y Pwyllgor – 'Asesu colledion Claddau Silwair a'r ffactorau cysylltiedig ar ffermydd da byw ar draws Cymru a Lloegr.'

Nodd y prosiect fyddai dadansoddi ansawdd silwair cladd a rhagweld y colledion maethol o'r torri hyd at fwydo. Mynegwyd pryder ynghylch fformat y cynnig ac a oedd y prosiect yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r mater yn y teitl.

Cyngor y Pwyllgor i HCC oedd nad oedd y prosiect yn addas i'w gyllido.

b. *I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori Y&D a gynhaliwyd ddydd Mercher 2 Medi 2015 (HCC 671)*

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori Y&D a gynhaliwyd ddydd Mercher 2 Medi 2015 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

14. **I dderbyn diweddariad llafar ynghylch Rhaglen y Cynllun Datblygu Gwledig 2014 – 2020**

Nodwyd bod y Datganiad o Ddiddordeb a gyflwynwyd gan HCC i Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2015 i ddatblygu Rhaglen Strategol i'r Sector Cig Coch wedi bod yn llwyddiannus.

Y camau nesaf: Byddai HCC yn cael gwahoddiad i ddatblygu'r cais ymhellach. Byddai'r Prif Weithredwr a'r Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol yn arwain yn hyn o beth.

15. **I dderbyn diweddariad llafar ar EIDCymru – y gronfa ddata ar gyfer symud defaid**

Nodwyd bod trefniadau ar y gweill i wneud y system gronfa ddata yn weithredol ar 18 Ionawr 2016.

Roedd y tîm swyddfa yn ei le oddi ar fis Rhagfyr 2015 ac roedd wedi cael hyfforddiant llawn. Roedd y tîm ymgysylltu yn dal i fod yn eithriadol o brysur, gyda llawer o gyfarfodydd â chynhyrchwyr, lladd-dai a marchnadoedd da byw.

Cytunwyd y dylai'r Bwrdd gael, er gwybodaeth, y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng HCC a Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag EIDCymru.

Yn dilyn y cyfarfod, gwahoddwyd y Bwrdd i ymweld â swyddfeydd EIDCymru a chafodd yr aelodau gyfle i weld y system ar-lein sy'n cofnodi symudiadau defaid.

16. **Papurau er gwybodaeth**

a. *Mewnforion Cig Oen a Chig Eidion ar gyfer Marchnadoedd Allweddol a Thargedau Cymru (HCC 672)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

b. *Effaith y Rhagofynion Symud Gwartheg ar Ddiwydiant Cig Eidion Cymru (HCC 673)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i darllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

17. **Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall i'w nodi.

18. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Gwener 4 Mawrth 2016.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**